# Adroddiad Arolygu

**Clwb Cymer Ofal**

**Ysgol Hamadryad**
**Heol Hamadryad**
**Caerdydd**
**CF10 5UY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Cymer Ofal

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Cymer Ofal Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y clwb. Mae ganddynt gydberthnasau agos â phlant eraill ac maent yn mwynhau treulio amser gyda nhw. Mae cydberthnasau cynnes a chefnogol amlwg rhwng y plant a'r staff yn amlwg, ac mae'n glir bod y staff yn adnabod y plant yn dda. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau newydd sydd ar waith o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau a phrofiadau i'r plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda er mwyn cynnal swigod ar wahân, yn unol â'r canllawiau cyfredol ar reoli heintiau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y clwb yn dda ac mae'r staff yn teimlo bod y rheolwyr yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi'n dda. Mae'r rhieni yn canmol y clwb a'r staff.

## Llesiant — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y clwb, a gallant arwain eu chwarae eu hunain. Gwrandewir ar y plant ac maent yn gwybod at bwy y gallant fynd i gael cymorth pan fydd angen. Gwelsom y staff a'r plant yn sgwrsio'n gyfeillgar â'i gilydd ac roedd yn glir bod y staff yn gwrando ar y plant a bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried a'u parchu. Mae'r plant yn hapus ac maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn drwy fynychu'r clwb.

Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, am fod yr holl blant yn mynychu'r ysgol. Gall y plant ddewis yr adnoddau y maent yn dymuno chwarae â nhw yn annibynnol; er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn dewis y parasiwt yn annibynnol. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion sydd wedi'u haddasu o ganlyniad i bandemig COVID-19. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r clwb ac ymlacio ar ôl diwrnod prysur yn yr ysgol.

Mae'r plant yn datblygu cydberthnasau da â'i gilydd ac maent wedi gwneud ffrindiau da. Roeddent yn chwarae'n dda gyda'i gilydd ac yn fwy na pharod i rannu adnoddau megis iwcalilis a phinnau a phensiliau lliw. Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da ac yn rhyngweithio'n dda â'u ffrindiau. Roedd y plant yn siarad â'i gilydd mewn ffordd garedig ac roedd amser byrbryd yn ddigwyddiad cymdeithasol. Mae'r plant yn eistedd gyda'i gilydd yn ddedwydd yn sgwrsio â'i gilydd ac â'r staff. Mae'r plant yn dechrau deall pwysigrwydd rhannu a chymryd eu tro.

Mae'r plant yn egnïol ac yn mwynhau gweithgareddau corfforol, gan feithrin eu sgiliau cyffredinol gyda chymorth ac anogaeth gan y staff. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn briodol ar gyfer ystod oedran y plant, a gwelsom blant o bob oedran yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn annibynnol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r amgylchedd, ac maent yn symud o amgylch y clwb yn hyderus ac yn hwylus, gan ddewis eu chwarae yn annibynnol.

| Gofal a Datblygiad | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
| --- | --- |

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gwybod mai diogelu'r plant yw'r flaenoriaeth ac maent yn cwblhau hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn gyfredol. Maent yn deall yr angen i ddilyn polisïau a gweithdrefnau COVID-19 llym ac yn cydnabod y gall eu hymddygiad effeithio ar bobl eraill. Yn ystod pandemig COVID-19 mae'r staff wedi modelu arferion da o ran cadw yn eu swigod, cadw pellter a chynyddu mesurau hylendid. Mae'r holl staff yn gwisgo gorchuddion wyneb drwy gydol y sesiwn yn ogystal â menyg yn ystod amser byrbryd. Mae'r staff yn annog y plant i fwyta byrbryd ffres ac iach. Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf a hylendid bwyd.

Caiff ymddygiad y plant ei reoli'n effeithiol ac mewn modd sensitif. Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda. Maent yn gwrando ar y plant ac yn siarad â nhw am yr hyn sydd wedi digwydd. Gwelsom aelod o'r staff yn atgoffa'r plant y gallent gael anaf petaent yn parhau i ddringo ar gadeiriau. Mae'r staff yn dangos esiampl dda. Maent yn cefnogi'r plant i fod yn iach, yn gorfforol egnïol a gwneud ffrindiau. Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant ac yn cefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn rhoi gofal cyson ac yn adnabod y plant yn dda. Maent yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae'r staff yn defnyddio'r dogfennau cynllunio sydd ar waith i arwain gweithgareddau. Mae'r staff yn trin y plant ag urddas a pharch, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae pob plentyn yn cael croeso cynnes wrth iddo gyrraedd. Defnyddir y Gymraeg yn gyson ac yn briodol.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
| --- | --- |

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mewn dwy ystafell ddosbarth wag ar y llawr cyntaf. Rhoddir blaenoriaeth i weithdrefnau tân, sy'n cynnwys ymarferion rheolaidd, a'r gwaith o gynnal a chadw cyfarpar Mae'r holl dystysgrifau diogelwch ar waith. Mae asesiadau risg effeithiol ar waith o bob rhan o'r safle a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Eir i'r afael ag unrhyw beryglon a nodir cyn gynted â phosibl. Caiff ffurflenni digwyddiadau a damweiniau eu cwblhau. Nid yw pob cofnod wedi'i lofnodi na'i ddyddio gan y rhieni. Mae Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith a chaiff yr holl wiriadau diogelwch eu cwblhau gan yr ysgol yn ôl yr angen.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar ac mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae arferion glanhau a mesurau rheoli heintiau newydd ar waith, sy'n cynnwys golchi dwylo'n fwy aml, er mwyn sicrhau llesiant a diogelwch y plant. Mae asesiad risg COVID-19 yn cael ei ddefnyddio fel dogfen weithredol a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd yn unol â chanllawiau sy'n newid yn gyflym. Mae’r safle yn ddiogel. Mae'r staff yn monitro'r fynedfa a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Dim ond ymwelwyr hanfodol a gaiff ddod i mewn i'r adeilad. Nid yw'r rhieni yn dod i mewn i'r eiddo yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer cadw'r plant a'r staff yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn.

Caiff y plant ddewis o amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu, sy'n briodol o ran eu datblygiad. Mae byrddau a chadeiriau maint plant yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn gartrefol wrth chwarae a bwyta. Mae'r plant yn cael cyfleoedd chwarae a dysgu da; mae'r adnoddau yn cynnwys gwneud marciau, offerynnau cerdd, posau, cuddfannau ac ardal i ymlacio.  Gwnaethom nodi bod adnoddau cyfyngedig ar gael a oedd yn hyrwyddo amlddiwylliannaeth, amrywiaeth a chynhwysiant. Yn yr awyr agored, gall y plant ddefnyddio rhan fawr o iard chwarae'r ysgol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd yn bosibl chwarae yn yr awyr agored oherwydd y tywydd.

## Arwain a Rheoli — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae rheolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn dda. Mae'r staff yn glir ynghylch at bwy y gallant fynd i drafod unrhyw faterion. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r datganiad hwn yn galluogi darpar rieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch defnyddio'r clwb.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weithdrefnau recriwtio manwl gywir er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth nodau a pholisïau clir yn seiliedig ar anghenion y plant. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Caiff unrhyw newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion eu cyfleu i'r staff yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynllunio ar gyfer gwelliannau'n briodol. Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i fonitro ansawdd y gofal y mae'n ei roi, sy'n cynnwys gweithdrefn gwyno.

Mae'r rolau wedi'u diffinio'n dda ac mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan gydweithredu a helpu ei gilydd er mwyn sicrhau bod y sesiwn yn mynd rhagddi'n ddidrafferth a bod anghenion y plant yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y plant yn cael budd o lefelau staffio digonol a bod y cyfarpar o ansawdd da.

Mae'r rhieni yn canmol ansawdd y gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym na fyddent yn ymdopi heb y clwb a bod eu plant bob amser yn amharod i adael. Mae'r staff yn canmol y rheolwyr a'r cymorth a gânt. Mae cysylltiadau cryf iawn â'r ysgol ac mae'r pennaeth a'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydweithio'n agos i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod y rhieni yn llofnodi ac yn dyddio pob ffurflen damweiniau a digwyddiadau.

A2. Sicrhau bod adnoddau sy'n hybu amlddiwylliannaeth, amrywiaeth a chynhwysiant ar gael i'r plant.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/06/2021